Darganfod y bacteria drwg

Dyfalbarhad / sylwgarwch

Louis Pasteur: 1822–1895

Fyddwch chi'n hoffi edrych drwy'r meicrosgop? Trwy wydrau hwn rydym ni'n gallu gweld y bach yn fawr. Ydych chi wedi edrych ar betal blodyn, adain glöyn byw neu hyd yn oed flewyn o'ch gwallt o dan y meicrosgop? Maen nhw'n edrych yn anferth, wir i chi! Dyma i chi stori am un, pan oedd yn blentyn bach, oedd wrth ei fodd yn edrych ar wahanol bethau o dan y meicrosgop.

Ar ôl iddo dyfu i fyny, daeth Louis yn athro mewn coleg ym Mharis, yn Ffrainc. Wrth ei waith bob dydd fe welai greaduriaid bach, bach o dan y meicrosgop. Dyma'r bacteria oedd yn peri i fwydydd a diodydd fynd yn ddrwg. A nhw yn eu tro oedd yn gyfrifol fod pobl ac anifeiliaid yn mynd yn sâl. Er eu bod nhw'n fychan, roedden nhw'n beryglus iawn. Pan soniodd Louis am hyn wrth y gwyddonwyr eraill, wnaethon nhw ddim ond chwerthin am ei ben. Roedd Louis yn benderfynol o brofi ei fod yn iawn.

Bu wrthi yn arbrofi efo gwin. Yn fuan iawn ar ôl ei botelu roedd y gwin yn mynd yn ddrwg. Os oedd y gwin yn cael ei gadw heb i'r aer fynd ato, yna roedd yn cadw'n win da. Gwelodd hefyd fod gwres yn lladd y bacteria. Mae llefrith yn cael ei gynhesu er mwyn lladd y bacteria. Yr enw a roir ar hyn erbyn heddiw ydi 'llefrith wedi ei basteureiddio'. Fe ddaw y gair 'pasteureiddio' o enw Pasteur.

Dechreuodd Pasteur astudio cŵn oedd yn byw yn yr ardal. Yn y cyfnod hwnnw os oedd rhywun yn cael ei frathu gan gi cynddeiriog, byddai'r person hwnnw'n sicr o farw. Felly, rhyw ddiwrnod fe ddaethpwyd â chi cynddeiriog at Pasteur. Sugnodd y gwenwyn o geg y ci efo tiwb. Roedd hyn yn waith peryglus iawn.

Un diwrnod fe ddaeth mam â'i phlentyn at Pasteur, "Mae o wedi cael ei frathu gan gi mawr sydd ar y stryd ac mae'n siŵr o farw," meddai'r fam dan grio. "Mae o wedi ei frathu tua deg o weithiau," meddai wedyn.

"Peidiwch â chrio," meddai Pasteur, "fe wnaf fy ngorau." Roedd rhaid rhoi bacteria da i mewn i gorff y bachgen. Am saith diwrnod bu Pasteur yn chwistrellu bacteria da i gorff y bachgen.

Roedd y bacteria da yn gweithio yn erbyn y bacteria drwg.

Ar y seithfed diwrnod, neidiodd y bachgen o'i wely. Roedd yn holliach. Aeth y sôn am Louis Pasteur drwy'r byd i gyd. Ar y dechrau, doedd y gwyddonwyr na'r meddygon ddim yn cyd-weld â'r hyn roedd Pasteur yn ei ddweud. Ond, erbyn hyn, mae pawb yn derbyn mai Pasteur oedd yn iawn o'r dechrau.

"Oddi wrth y Goruchaf y daw ei ddawn i iacháu."
Ecclesiasticus 38:2

Ysbyd Glân,
meddylia trwof fi
nes i'th syniadau di
fod yn syniadau i mi.
Amen.

(Amy Carmichael)

Trafodwch y modd mae gwyddoniaeth wedi gwella ein ffordd o fyw.

Louis Pasteur: 1822–1895